# Dyfarniad Rheoleiddio

## Medi 2026

## Barcud Cyfyngedig – L151

## Dyfarniad

| Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Mae'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn bodloni ein gofynion** |
| **Hyfywedd Ariannol** | |
| **Melyn** | **Mae'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn bodloni ein gofynion ac mae angen iddo barhau i reoli risgiau perthnasol er mwyn cynnal y sefyllfa hon** |

**Y Broses Ddyfarnu**

Cynhaliwyd yr Asesiad Rheoleiddio o Barcud yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru 2025. Yn ogystal â chwmpas safonol llywodraethu, darparu gwasanaethau a hyfywedd ariannol, yn dilyn adolygu hunanwerthusiad y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, cynllun gwella cydymffurfiaeth (CIP) a dogfennau cysylltiedig, adolygwyd y trefniadau llywodraethu, rheoli risg, ymwneud â thenantiaid, gwerth am arian a chynllunio a rheoli ariannol yn fwy manwl.

Yn ogystal ag adolygu dogfennau a ffurflenni rheoleiddiol, cynhaliwyd cyfweliadau gyda'r Prif Swyddog Gweithredol a Chadeirydd y Bwrdd, a Chyfarwyddwr y Grŵp Cyllid, Llywodraethu a Buddsoddi. Arsylwyd ar gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, ac aeth y tîm rheoleiddio i ddigwyddiad ymgysylltu â thenantiaid. Gwnaethom hefyd ystyried gwybodaeth o gyswllt rheoleiddio arferol â'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig.

**Y Gwelliannau Sydd eu Hangen**

Dangosodd yr Asesiad Rheoleiddio fod yn rhaid gwella cydymffurfiaeth â'r Safonau Rheoleiddio a nodir isod neu fod angen rheoli risgiau sylweddol yn dynn, er mwyn parhau i fodloni ein gofynion:

| Safon Reoleiddio | Gwelliant sydd ei Angen neu Risg Sylweddol i'w Rheoli'n Dynn |
|---|---|
| **RS1: Mae gan y sefydliad drefniadau arwain a llywodraethu strategol effeithiol sy'n ei alluogi i gyflawni ei ddiben a bodloni ei amcanion** | |
| d) Mae ganddo Fwrdd amrywiol, sy'n adlewyrchu'r cymunedau y mae'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn gweithio gyda nhw ac ynddynt, ac | Defnyddir data yn bwrpasol er mwyn cynnig mewnwelediad manwl o'r gymuned, gan gynnwys amrywiaeth, i sicrhau bod aelodaeth y Bwrdd yn |

| | |
|---|---|
| sy'n meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i fod yn effeithiol. | adlewyrchu'r cymunedau hynny ac yn llywio'r cynlluniau olyniaeth. |
| **RS7: Mae'r cynllunio a'r rheolaeth ariannol yn gadarn ac yn effeithiol** | |
| b) Mae'n ariannol hyfyw yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy, ac mae'n sicrhau bod digon o gyllid a hylifedd i gefnogi hyn. | Mae gan y Gymdeithas raglen sylweddol o waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio dros y 5 mlynedd nesaf, sy'n effeithio'n sylweddol ar ei metrigau ariannol. |

**Hunanwerthuso - Gofynion a nodir yn Fframwaith Rheoleiddio 2025**

Nid oeddem yn gallu dod i'r casgliad bod yr hunanwerthusiad yn bodloni'r holl ofynion a nodir yn Fframwaith Rheoleiddio 2025 yn llawn. Rhaid mynd i'r afael â'r gofyniad fel y nodir isod yn llawn yn eich hunanwerthusiad nesaf:

• **Gofyniad 4.** Datganiad yn dangos sut mae safbwyntiau tenantiaid wedi'u deall a'u hystyried yn yr ymarfer hunanwerthuso, gan ddangos sut mae'r safbwyntiau hynny wedi'u hystyried a'r gwahaniaeth a wnaethant.

Mae Barcud wedi cyhoeddi ei hunanwerthusiad lle gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

**Landlord Cymdeithasol Cofrestredig: Proffil**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr Unedau** | **4,493** |
| **Trosiant Blynyddol** | **£33.8m** |
| **Cymhareb Gerio** | **33%** |
| **Sicrwydd Llog** | **173%** |
| **Math o Landlord Cymdeithasol Cofrestredig** | **Trosglwyddiad Gwirfoddol ar Raddfa Fawr (LSVT)** |
| **Lleoliad** | **Canolbarth a Gorllewin Cymru** |

*Mae'r ffigurau uchod o 31 Mawrth 2026, dyddiad y datganiadau ariannol diweddaraf a gyhoeddwyd.*

Bwriad dyfarniadau rheoleiddio yw rhoi syniad i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, eu tenantiaid, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o ba mor dda y maent yn perfformio, ar adeg benodol, mewn perthynas â'r safonau rheoleiddio a osodwyd gan Weinidogion Cymru ar y canlynol:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Hyfywedd Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar ddyfarniadau at unrhyw ddiben arall. Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn gyfrifol am gyflawnder a chywirdeb yr wybodaeth a roddir i'r Rheoleiddiwr yn eu hunanwerthusiad a'u tystiolaeth ategol.

Y Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@llyw.cymru

ISBN digidol **978-1-83715-922-2**
Hawlfraint y Goron 2026